

# LLAWLYFR PECYN CYMORTH HWB BWYD CYMUNEDOL CYMRU



# BETH YW HWB BWYD?

Mae hwb bwyd yn cysylltu pobl â thyfwyr, cynhyrchwyr bwyd a chyflenwyr lleol.

Cael ei redeg gan wirfoddolwyr gydag archebion a chasgliadau wythnosol o leoliad lleol.

# YR HYN RYDYCH EI ANGEN I SEFYDLU HWB BWYD

- Cwsmeriaid
- Cyflenwyr
- Lleoliad
- Gwirfoddolwyr

Mae Dosbarthu Bwyd Cymunedol Cymru wedi helpu i sefydlu 15 Hwb Bwyd yn 2022-23.

Bydd y Pecyn Cymorth hwn yn helpu i sefydlu'ch Hwb Bwyd.

WCFD

DOSBARTHU BWYD CYMUNEDOL CYMRU
WALES COMMUNITY FOOD DISTRIBUTION

# SUT MAE'N GWEITHIO

## Mae Hybiau Bwyd Cymunedol Cymru yn rhedeg ar fodel syml.

1. Mae cwsmeriaid yn archebu a thalu wythnos ymlaen llaw.

2. Gall cwsmeriaid archebu bag ffres o lysiau a/neu ffrwythau a/neu salad. Mae bob bag yn costio £5 ac yn ddigon i fwydo dau berson gydag amrywiaeth o lysiau/ffrwythau/salad.

3. Mae'r gwirfoddolwyr Hwb Bwyd yn rhoi archebion i'r cyflenwr (cyflenwyr) ar gyfer eu danfon yr wythnos ganlynol.

4. Mae'r cyflenwr (cyflenwyr) yn danfon yr archebion i'r lleoliad.


5. Mae'r gwirfoddolwyr Hwb Bwyd yn agor ar gyfer yr oriau penodol.

6. Mae cwsmeriaid yn casglu eu harcheb fwyd (llysiau/ ffrwythau/salad) ac yn archebu ar gyfer yr wythnos ganlynol.

Efallai y byddwch yn dewis cynnig mathau ychwanegol o fwyd, neu wahanol brisiau, yn dibynnu ar eich cwsmeriaid a'r cynnyrch sydd ar gael yn eich ardal.

# AWGRYM GWYCH

Ewch i ymweld â Hwb Bwyd sydd wedi'i sefydlu eisoes




dewch o hyd iddynt ar y <u>map ar-lein</u>

# CWSMERIAID

Bydd dod i adnabod gofynion ac anghenion eich cwsmeriaid yn eich helpu i ddeall eich marchnad.

## Beth sy'n bwysig i'ch cwsmeriaid?

Ffordd o fyw

Bwyd Lleol

Amrywiaeth

Cwrdd â phobl

Organig

Tymhorol

Gwerth

Cyflenwyr Lleol

Pwynt casglu lleol

Cwrdd â chyflenwyr

Preifatrwydd

Gweithgareddau cymunedol

Rhwydd i ddefnyddio

Cost

Cysylltiadau

Syniadau ryseitiau

## Pa fwyd mae eich cwsmeriaid eisiau ei brynu?

Ffrwythau

Cig

Cynnyrch llaeth

Llysiau

Bara

Salad

Pysgod

## Pa ddiwrnodau ac amseroedd sy'n eu siwtio ar gyfer casglu bwyd?

"Mae popeth mor ffres... Gwell na'r archfarchnad am sawl rheswm: gwerth da am arian, amrywiaeth dda, diogelwch bwyd ar lefel leol."
– Cwsmer Hwb Bwyd Llanbedr Pont Steffan

*Darllen yr astudiaeth achos*

## AWGRYM GWYCH

Casglwch adborth yn rheolaidd ac ymatebwch yn brydlon i gwynion.

# CYFLENWYR

Ydych chi'n gwybod pa fwyd sydd ar gael yn lleol?

Gallwch ymchwilio a mapio eich ardal leol er mwyn nodi'r holl dyfwyr, cynhyrchwyr, cyflenwyr a chyfanwerthwyr bwyd.



Siaradwch â nhw ynglŷn â'r hyn y gallant ei gyflenwi, am ba bris, eu proses archebu a phryd gallant ddanfon.

## Mae manteision i gyflenwyr Hwb Bwyd:

- ✓ Danfoniad lleol
- ✓ Tâl wrth ddanfon
- ✓ Cwsmeriaid newydd
- ✓ Archebion ymlaen llaw
- ✓ Bwydo pobl leol
- ✓ Gwell cysylltiadau cymunedol

## AWGRYM GWYCH



Rhowch logo’ch cyflenwr ar eich poster.

"Rydyn ni mor falch ein bod ni wedi arbed arian i bobl leol... Rydyn ni'n gweithio gyda WCFD i rymuso'r gymuned leol, i beidio â gwneud elw ar yr hyn rydyn ni'n ei werthu yn yr hwb. Rydyn ni'n ceisio annog pobl i ddatblygu eu sgiliau coginio pan fyddan nhw'n dod i'r siop, felly mae cyflenwi'r hybiau bwyd yn gyfle gwych i ni helpu gyda siwrnai bwyd ein cwsmeriaid a'u hannog i ddefnyddio cynnyrch gwahanol i'r arfer ochr yn ochr â'u bwyd arferol.

Rydyn ni'n ceisio cael cynnyrch mor ffres â phosib, fel bod yr ansawdd cystal ag y gallwn ei gynnig. Rydyn ni wir yn malio am gynnyrch lleol o ansawdd uchel."
– Dai's Five a Day, Cyflenwyr Hwb Bwyd Doc Penfro

*Darllen yr astudiaeth achos*

# LLEOLIAD

Bydd dewis lleoliad sy'n adnabyddus ac yn hygyrch i bawb yn helpu eich Hwb Bwyd i fod yn weladwy ac yn ddeniadol i gwsmeriaid newydd.

Mae neuaddau pentref, ysgolion a mannau cymunedol eraill yn lleoliadau da ar gyfer Hybiau Bwyd. Mae'r lleoliadau hyn yn fwy tebygol o gynnig lle am ddim. Yn gyfnewid am hyn, mae'n bosib y bydd yr Hwb Bwyd yn cynyddu'r nifer o gwsmeriaid i'r lleoliad ac yn cynnig gwasanaeth cymunedol gwerthfawr.

Yn ogystal, gall cynnal eich Hwb Bwyd ochr yn ochr â gweithgareddau eraill helpu i ddenu cwsmeriaid.



Mae’n fanteisiol petai gan eich lleoliad:

Parcio

Safle dan do

Fynediad rhwydd

Cyfleusterau golchi dwylo

Lle i fyrddau a chadeiriau

## AWGRYM GWYCH

Gwiriwch am unrhyw newidiadau gwyliau gyda’ch lleoliad a’ch cyflenwr mewn da bryd.

# GWIRFODDOLWYR

Mae Hybiau Bwyd yn cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr. Mae'n helpu petai nifer ohonoch ar gael er mwyn ysgafnhau'r cyfrifoldebau a sicrhau bod modd i bawb gael egwyl.

"Rydym yn mwynhau creu ryseitiau gyda'r cwsmeriaid a rhannu lluniau ar ôl i ni goginio."
– Gwirfoddolwr Hwb Bwyd

Bydd y tîm gwirfoddol yn sefydlu a hyrwyddo'r Hwb Bwyd i ddechrau ac yna bob wythnos byddwch yn...

- Agor yr Hwb Bwyd er mwyn derbyn danfoniadau gan gyflenwyr
- Cymryd archebion cwsmeriaid ar gyfer yr wythnos ganlynol
- Croesawu cwsmeriaid a rhoi eu harcheb iddynt
- Cyflenwadau archeb

Yn ogystal byddwch yn hyrwyddo’r Hwb Bwyd i ddenu cwsmeriaid newydd. Efallai y byddwch yn awyddus i ychwanegu cyflenwyr newydd i ehangu neu amrywio’r cynnyrch rydych yn eu cynnig.

Bydd rhywun ar y tîm hefyd yn gyfrifol am sicrhau eich bod yn cydymffurfio â rheoliadau GDPR a hylendid bwyd. Gweler y ‘Dogfennau defnyddiol’ a’r ‘Dolenni a sefydliadu defnyddiol’ am adnoddau pellach.

# HYRWYDDO EICH HWB BWYD



Dywedwch wrth bobl ynglŷn â'r hyn rydych yn ei wneud, lle a phryd!

Mae denu cwsmeriaid a chyflenwyr yn bwysig pan rydych yn dechrau arni.

Cofiwch ddyfalbarhau gyda hyrwyddiad - ar gyfer cwsmeriaid newydd ac i gynnal diddordeb ar gyfer cwsmeriaid presennol.

Efallai y bydd gan eich lleoliad a mannau cymunedol lleol eraill hysbysfyrddau ar gyfer posteri.



Efallai y bydd ganddynt wefan, tudalen Facebook neu gyfryngau cymdeithasol eraill lle gallwch hysbysebu ar-lein.

Mae modd i chi dderbyn cylchlythyr neu flog rheolaidd ar gyfer eich Hwb Bwyd gyda ryseitiau a gwybodaeth ynghylch eich cyflenwyr.

Mae gwirfoddolwyr a chwsmeriaid Hwb Bwyd Penfro yn cyfrannu at eu blog.



Mae sawl poster enghreifftiol a deunyddiau hyrwyddo eraill yn y Pecyn Cymorth, y gallwch eu haddasu at eich defnydd eich hun.

Maent yn cael eu creu gan Canva, llwyfan ar-lein am ddim ar gyfer creu a golygu lluniau a dogfennau.

Os nad ydych wedi'i ddefnyddio eisoes cymerwch gipolwg ar '[How to Use Canva: A Beginner's Guide]'.

# MESURWCH EICH EFFAITH


Gall casglu data ynghylch eich Hwb Bwyd fod yn ffordd wych o fesur eich effaith.



Gall hyn helpu i gael cefnogaeth ar gyfer eich Hwb Bwyd, denu cwsmeriaid a chyflenwyr newydd a dangos i bawb y gwahaniaeth rydych yn ei wneud yn eich ardal leol.

# BETH SYDD YN EICH PECYN CYMORTH?

- Llawlyfr Pecyn Cymorth
- 7 Cam Rhwydd i Ddechrau Hwb Bwyd
- Ffurflen wirfoddoli
- Llyfryn gwirfoddoli
- Ffurflen archebu cwsmeriaid
- Deunyddiau hyrwyddo ar Canva (yn cynnwys posteri, templed ryseitiau...)
- Ffurflen adborth



# DOLENNI A SEFYDLIADAU DEFNYDDIOL

Dosbarthu Bwyd Cymunedol Cymru

Astudiaeth Achos Hybiau Bwyd Cymunedol Cymru

Fideos Hybiau Bwyd Cymunedol Cymru ar YouTube

PLANED

Blog Hwb Bwyd Penfro

Hwb Bwyd Cydweli

Seasonarians – yn ymwneud â bwyta’n dymhorol yn y DU

Cyngor ynglŷn â’r cyfryngau cymdeithasol gan Busnes Cymru

Mae Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn cynnig cymorth a chyngor i wirfoddolwyr a sefydliadau gwirfoddol, ac mae modd i chi ddod o hyd i'ch Cynghorau Gwirfoddol Sirol lleol ar wefan Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Y Cynghorau Gwirfoddol Sirol yng Ngorllewin Cymru yw:

- Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS)
- Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin (CAVS)
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO)

"Rydym yn ddiolchgar iawn i dîm PLANED am ein helpu ni i lansio ein hybiau bwyd ac rydym nawr yn edrych ymlaen at ehangu ein cynigion cynnyrch a dod o hyd i ffyrdd newydd o ddatblygu mwy a mwy ar ein sylfaen cwsmer..."
– FRAME Hybiau Bwyd yn Noc Penfro a Hwlffordd

PLANED

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig:
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DIOLCH o galon i bawb a gymerodd ran yn ein camau peilot lle bu eich adborth a syniadau gwerthfawr o gymorth mawr i greu'r pecyn cymorth hwn. Rydym yn edrych ymlaen at weld pennod nesaf yr holl hybiau bwyd a dymunwn y gorau i chi. Oddi wrth bawb yn PLANED

WCFD

DOSBARTHU BWYD CYMUNEDOL CYMRU
WALES COMMUNITY FOOD DISTRIBUTION